# Datganiad Hygyrchedd Beudy Gwenoliaid

Cyrhaeddir bwthyn Beudy Gwenoliaid fyny lôn un cerbyd oddi ar y brif ffordd A496 un filltir i'r gogledd o dref Bermo. Mae gorsaf drên yn nhref Bermo, a gwasanaeth bysys a thacsi oddi yno.

O flaen y bwthyn mae concrid llyfn, ac mae waliau gwenithfaen o'i amgylch. Mae lle i barcio un car (dau os gwneir trefniant ymlaen llaw) yn union o flaen y bwthyn. Mae patio ar yr un lefel â llawr cyntaf y bwthyn, ac mae modd mynd ato drwy ddrysau dwbl o'r ystafell fyw (lawr un gris 18cm). Mae hefyd yn bosib cyrraedd y patio wrth ddringo grisiau gerrig garw o uchder amrywiol wrth ochr y bwthyn, sy'n mynd y tu ôl iddo ac ymlaen i'r patio.

Mae'r brif fynedfa, sydd â gris 18cm, yn arwain i'r cyntedd. Mae llif olau y tu allan i ddrws y brif fynedfa. Ar y llawr isaf mae'r ddwy ystafell wely a'r ystafell ymolchi. Teils llwyd sy'n llawr i'r cyntedd a'r ystafell ymolchi, a lloriau derw golau sydd i'r ystafelloedd gwely. Mae'r waliau'n olau, a lliw derw golau yw'r drysau a'u fframiau. Goleuir yr ystafelloedd gwely gan oleuni naturiol, golau o'r nenfwd a lampau bwrdd. Goleuir yr ystafell ymolchi gan olau cilannog halogen. 73cm yw agoriad y drws culaf, â phob drws arall yn 80cm a mwy.

Mae grisiau derw, siâp L yn arwain o'r cyntedd i'r llawr cyntaf, gyda chanllaw'r grisiau'n dechrau ar ôl 5 gris. Mae rheilen dderw 90cm o uchder rhwng y llawr cyntaf a'r cyntedd islaw. Ar ben y grisiau mae'r gegin ac ardal fwyta. Mae mynedfa fwaog rhwng y gegin a'r ystafell fyw. Mae'r waliau'n olau drwyddi draw. Ceir digonedd o oleuni naturiol drwy bedair ffenest yn y to a'r drysau dwbl, a cheir nifer o oleuadau spot yn ogystal.

Derw golau yw'r lloriau, â ryg fawr yn yr ystafell fyw.

Mae'r holl socedi trydan - ar wahân i rai ar lefel wyneb gweithio'r gegin, oddeutu 50cm o'r llawr, a'r switshis golau oddeutu 115cm.

Mae gan y TELEDU/DVD rheolydd o bell. Mae signal ffôn Vodafone cryf a signal Orange/T-Mobile/Virgin gwan.

-----------------------------------------------------------

Yng nghornel uchaf bwthyn Taicroesion (sydd gyfagos) mae ystafell golchi dillad sy'n cael ei rhannu rhwng tri bwthyn. Mae gris o 20cm i fynd i mewn iddh, mae ganddh lawr teils. Mae socedi trydan a swîts golau ar uchdwr o oddeutu 115cm.

Ceir mynediad ati drwy groesi lawnt bwthyn Beudy Taicroesion, ac ym mhen draw'r lawnt mae grisiau yn arwain lawr at yr adnodd hwn.